Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Canolfan Gofal Dydd ac Ymchwil Plant Tir na n-Og**

**Safle Normal**
**Ffordd Caergybi**
**Bangor**
**LL57 2PZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Canolfan Gofal Dydd ac Ymchwil Plant Tir na n-Og

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Prifysgol Bangor |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn ac, ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried gofal a datblygiad, yr amgylchedd nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn hyderus. Maent yn gwneud ffrindiau ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn gwneud dewisiadau am sut i dreulio eu hamser. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth yn briodol.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Maent yn rhyngweithio’n dda â'r plant ac yn gyfarwydd â'u dewisiadau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar.

Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac yn cynnig digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu a meithrin eu sgiliau. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn ddiogel ac mae'r ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored wedi'u trefnu'n dda.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i'w reoli'n effeithiol, ond rydym wedi gwneud rhai argymhellion mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad.

## Llesiant

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad ac yn gwneud dewisiadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser. Maent yn hyderus i ofyn i'r staff am help pan fydd angen, neu i ofyn am yr hyn y maent ei eisiau. Er enghraifft, yn ystod amser cinio, roedd y plant yn gofyn yn hyderus am lwyau i fwyta eu reis, ac fe'u rhoddwyd iddynt. Mae'r plant yn mwynhau bod yng nghwmni'r staff ac yn eu gwahodd i ymuno â'u chwarae.

Mae'r plant yn fodlon ac yn gyfforddus yng nghwmni'r staff ac yn siarad yn rhwydd â nhw. Mae'r plant yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn rhoi blaenoriaeth i'w hymdrechion i gyfathrebu dros dasgau eraill. Maent yn ymddiried yn y staff i ddatrys achosion o wrthdaro ac i roi tawelwch meddwl. Gwelsom blentyn yn gofyn i'r staff am help yn dilyn anghytundeb rhyngddo a phlentyn arall. Mae'r plant yn ddigon hyderus i siarad â ni, maent yn gofyn cwestiynau ac yn dweud wrthym am yr hyn y maent yn ei fwynhau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu sut i gydweithredu ac i aros eu tro. Er enghraifft, roeddent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a'r staff yn ystod gweithgaredd paentio rhydd. Mae'r plant hŷn yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser cinio ac yn sgwrsio â'r staff a'u ffrindiau o amgylch y bwrdd wrth iddynt fwyta. Mae'r plant yn mwynhau'r ardal chwarae yn yr awyr agored a gwelsom grŵp o blant yn mynd allan am dro yn yr awyr iach i archwilio'r ardal leol.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau a gynigir, dan do ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, roedd un plentyn yn mwynhau chwarae â bwyd ffug gyda'r staff yn y gornel gartref, gan wenu a chwerthin. Mae'r plant yn chwarae'n dda â'i gilydd, yn aros eu tro i gael cymorth, ac yn canolbwyntio am gyfnodau addas o amser. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn brysur yn chwarae â theganau cerddorol.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu'n gymdeithasol ac i ddod yn annibynnol. Cânt eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnwys gwisgo eu cotiau a'u gwisgoedd glaw i fynd allan i'r awyr agored. Mae'r plant yn gallu cael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel o fewn cyrraedd hawdd iddynt.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn deall gweithdrefnau'r lleoliad i sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn iach, ac maent yn eu dilyn. Mae nifer digonol o staff y feithrinfa wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a chaiff unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n briodol a'u llofnodi gan y rhieni. Mae'r staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant.

Mae'r staff yn annog y plant i fwyta'n iach ac i yfed digon; maent yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar eu poteli dŵr drwy gydol y dydd ac y caiff prydau a byrbrydau iach eu darparu. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo pan fydd angen ac yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i dreulio amser yn yr awyr agored, gan sicrhau eu bod yn meithrin eu sgiliau corfforol. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, er enghraifft maent yn gwisgo ffedogau a menig wrth weini bwyd ac yn dilyn y weithdrefn gywir wrth newid cewynnau.

Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a phwyllog ac yn rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt pan fydd angen. Maent yn delio ag unrhyw fân anghytundebau neu ymddygiad amhriodol yn gadarnhaol. Er enghraifft, maent yn helpu’r plant i ddysgu sut i rannu, ac yn eu hatgoffa i wneud hynny. Mae'r staff yn defnyddio canmoliaeth yn aml drwy gydol y dydd i annog y plant i ryngweithio ac ymddwyn yn gadarnhaol.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl y maent yn gwybod y bydd y plant yn eu mwynhau, gan gynnwys mynd am dro yn y gymuned leol a chymysgedd da o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u harferion, eu hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r staff yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, gan eu helpu i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol. Mae angen datblygu'r strategaethau ar gyfer cynllunio yn y fan a'r lle ymhellach fel y gellir dilyn diddordebau'r plant. Mae'r staff yn tynnu lluniau rheolaidd o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn rhannu'r rhain â'r rhieni mewn llyfr datblygiad.

Mae'r rhieni a'r staff yn cyfathrebu'n dda, gan ddefnyddio llyfrau cyfathrebu ym mhob ystafell i rannu gwybodaeth a diwallu anghenion unigol. Er enghraifft, clywsom staff yn trafod plentyn y gallai fod angen iddo gysgu yn ystod y dydd gan nad oedd wedi cysgu'n dda yn ystod y nos. Mae'r cogydd yn holi'r staff bob dydd pa blant allai fod yn cysgu amser cinio, fel y gellir cadw eu pryd bwyd iddynt ei gael yn nes ymlaen. Mae hyn yn sicrhau y caiff anghenion ac arferion unigol y plant eu diwallu a'u bodloni gan nad oes angen tarfu arnynt.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau i ddarparu amgylchedd diogel i'r plant. Arddangosir tystysgrif atebolrwydd cyhoeddus gyfredol ar hysbysfwrdd gwybodaeth i rieni wrth y brif fynedfa.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd addas i'r plant chwarae a dysgu. Maent yn cynnig detholiad priodol o deganau ac adnoddau i'r plant, a gaiff eu storio mewn man lle y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i archwilio deunyddiau naturiol ac wedi'u hailgylchu yn yr amgylchedd dan do. Mae'r staff yn arddangos samplau o waith y plant ar fyrddau arddangos, gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Caiff yr holl ardaloedd eu cynnal a'u cadw'n addas, ac maent yn olau, yn lân ac yn groesawgar i'r plant.

Mae ardal chwarae fawr ar gael i'r plant y tu allan, ynghyd ag ardal bwrpasol lai i fabanod. Ceir detholiad da o adnoddau yn yr awyr agored, gan gynnwys cerbydau pedal, llithren a chyfarpar taflu a dal er mwyn meithrin sgiliau synhwyraidd, sgiliau cydsymud a sgiliau corfforol y plant. Byddai caniatáu i'r plant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored yn gwella eu gallu i fanteisio ar y cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored ac yn creu amgylchedd a arweinir yn fwy gan y plentyn.

Mae amrywiaeth o gyfarpar ar gael i hybu annibyniaeth y plant, gan gynnwys toiledau a sinciau lefel isel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn drefnus ac yn effeithiol. Maent yn gwneud pob ymdrech i gydymffurfio â'r rheoliadau ac i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent yn cefnogi rheolwr a staff y feithrinfa yn llawn, gan sicrhau eu bod yn defnyddio eu hamser yn effeithiol i ofalu am y plant. Er enghraifft, mae'r person â chyfrifoldeb/rheolwr y feithrinfa yn weithiwr ychwanegol, sy'n golygu ei bod ar gael i gefnogi eraill ac na chaiff ei chyfrif yn y cymarebau staffio. Felly, mae ganddi'r amser i ddelio â materion sy'n codi ac i siarad â'r staff a'r rhieni. Mae dirprwy reolwr sy'n cynorthwyo a swyddog cymorth gweinyddol i reoli cofnodion electronig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn darparu cogydd i oruchwylio'r broses o ddarparu prydau a byrbrydau bob dydd, sy'n golygu mai anaml iawn y bydd angen i'r staff adael y plant i gwblhau tasgau eraill.

Mae datganiad o ddiben clir ar waith, sy'n rhoi gwybodaeth gywir i rieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae copïau caled o bolisïau a gweithdrefnau manwl ar gael i'w gweld wrth fynedfa'r feithrinfa. Roedd yr unigolion sy'n rhedeg y lleoliad yn cytuno bod angen polisi ar wahân ar gyfer damweiniau a digwyddiadau, yn ychwanegol at y polisi cymorth cyntaf. Caiff y polisi cwynion ei arddangos ar yr hysbysfwrdd wrth fynedfa'r feithrinfa, ac mae copi o'r polisi ar gael yn y ffeil polisïau a gweithdrefnau. Dilynir gweithdrefnau cwyno yn ofalus pan fydd sefyllfaoedd ffurfiol yn codi, ond dylid tywys rhieni drwy gamau gwahanol y gweithdrefnau cwyno. Gwnaethom argymell y dylid adolygu'r polisi cwynion er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r arferion cyfredol yn gywir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwerthfawrogi eu staff. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol sy'n dangos eu haddasrwydd i weithio gyda phlant. Gwnaethom argymhelliad mewn perthynas â chwblhau'r holl arfarniadau staff blynyddol a ffurfioli'r cyfarfodydd goruchwylio. Nid yw'r unigolion sy'n rhedeg y lleoliad wedi llwyddo i gadw at yr amserlen ar gyfer cynnal cyfarfodydd â'r staff oherwydd y pandemig diweddar ac absenoldebau staff. Aeth rheolwr y feithrinfa ati'n gyflym i gael gafael ar wybodaeth i'w helpu mewn perthynas â phrosesau arfarnu a gwerthuso ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau cwyno er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion yn ymarferol.

A2. Parhau i ddatblygu ffocws a arweinir gan y plentyn a gwaith cynllunio yn y fan a'r lle er mwyn sicrhau y caiff diddordebau'r plant eu dilyn.

A3. Sicrhau bod yr arfarniadau staff blynyddol yn gyfredol. Ffurfioli cyfarfodydd goruchwylio un i un â'r staff, gan gofnodi'r trafodaethau hyn am ymarfer, hyfforddiant a datblygiad.

A4. Ystyried caniatáu i'r plant symud yn rhydd rhwng yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored a chyflwyno cyfleoedd i'r plant archwilio adnoddau naturiol, adnoddau wedi'u hailgylchu ac adnoddau bywyd go iawn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/01/2023